Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University

**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD AR GYFER STAFF, RHAI SY'N YMGEISIO AM SWYDDI AC ERAILL SY'N GWEITHIO YM MHRIFYSGOL WRECSAM**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i fyfyrwyr cyfredol, gweithwyr a chyn-weithwyr, contractwyr, deiliaid swyddi anrhydeddus, gwirfoddolwyr a darlithwyr sy'n ymweld. Mae'n egluro sut y byddwn ni'n prosesu eich data personol. Dyw'r hysbysiad hwn ddim yn ffurfio rhan o unrhyw gontract cyflogaeth neu gontract arall i ddarparu gwasanaethau.

## Pa wybodaeth rydym yn ei dal?

Rydym yn dal amrywiaeth o ddata personol amdanoch chi, gyda pheth ohono'n cael ei ddarparu gennych chi'n uniongyrchol a pheth ohono yn cael ei dderbyn gennym gan drydydd partïon.

**Dyma rai enghreifftiau o fathau o ddata personol rydym yn ei ddal:**

- Manylion personol megis enw, teitl, dyddiad geni, rhywedd, statws priodasol a dibynyddion
- Manylion cyswllt megis cyfeiriad, rhif ffôn ac e-bost personol
- Gwybodaeth am y berthynas agosaf a gwybodaeth gyswllt mewn argyfwng
- Rhif Yswiriant Gwladol
- Manylion cyfrif banc, manylion cyflogres a gwybodaeth am statws treth
- Gwybodaeth am gyflog, dyddiau gwyliau, pensiwn a budd-daliadau
- Lleoliad y gyflogaeth neu weithle
- Gwybodaeth recriwtio (gan gynnwys copïau o gymwysterau, yr hawl i ddogfennaeth gwaith, cyfeiriadau trwydded yrru a gwybodaeth arall a gynhwysir ar CV neu lythyr cais fel rhan o'r broses ymgeisio)
- Cofnodion cyflogaeth (gan gynnwys teitlau swyddi, hanes gwaith, oriau gwaith, cofnodion hyfforddi ac aelodaeth broffesiynol)
- Gwybodaeth am fewnfudo (megis manylion pasbort a hyfedredd iaith)
- Gwybodaeth am berfformiad
- Gwybodaeth disgyblu a chwynion
- Tystiolaeth Camera Cylch Cyfyng (gan gynnwys camerâu sy'n cael eu gwisgo ar y corff) a gwybodaeth arall a sicrhawyd drwy ddull electronig megis cofnodion cerdyn cyflwyno
- Gwybodaeth am eich defnydd chi o'n systemau TG
- Delwedd cerdyn adnabod a ffotograffau
- Data lleoliad a gasglwyd drwy fewngofnodi ar WIFI Eduroam y Brifysgol yn adeiladau'r campws, gan gynnwys gofodau addysgu a dysgu ac ardaloedd cyhoeddus. Data lleoliad a gasglwyd drwy fewngofnodi gyda chardiau staff.
- Data enw defnyddiwr a gasglwyd drwy fewngofnodi ar WIFI Eduroam y Brifysgol yn adeiladau'r campws, gan gynnwys gofodau addysgu a dysgu ac ardaloedd cyhoeddus. Caiff hwn ei gasglu ar gyfer cefnogi'r system Profi ac Olrhain y GIG yn unig, ac fe'i cedwir am gyfnod cyfyngedig o amser.

**Mae'n bosib y byddwn hefyd yn casglu, storio a defnyddio'r "categorïau arbennig" canlynol o wybodaeth bersonol fwy sensitif:**

- Gwybodaeth am eich hil neu ethnigrwydd, anabledd, oedran, credoau crefyddol, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, barn wleidyddol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth
- Aelodaeth o undeb llafur
- Gwybodaeth am eich iechyd, gan gynnwys unrhyw gyflwr meddygol, a chofnodion iechyd a salwch
- Gwybodaeth am unrhyw euogfarnau troseddol, troseddau a statws rhestr wahardd
- Gwybodaeth am iechyd lle mae myfyriwr naill ai'n hunan-adrodd am symptomau o afiechydon heintus e.e. Covid 19 neu Glwy'r Pennau, neu lle caiff y Brifysgol ei hysbysu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru neu gyrff y GIG.

## Sut ydym yn ei ddefnyddio a pham?

Rydym yn prosesu eich data personol er mwyn ein helpu ni i weinyddu'r berthynas gyflogaeth rhyngoch chi a'r Brifysgol yn effeithiol.

Rydym ond yn prosesu data at ddiben penodol ac os yw wedi'i gyfiawnhau yn unol â chyfraith gwarchod data. Mae'r tabl isod yn rhestru'r amrywiol resymau pan rydym yn prosesu data personol a'r cyfiawnhad dros wneud hynny.

Gellir cyfiawnhau prosesu peth o'ch data personol ar sail rheidrwydd cytundebol. Yn gyffredinol mae hyn yn berthnasol i'r data personol rydych chi'n ei ddarparu i ni pan rydych yn dechrau gweithio gyda ni gyntaf a thrwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Brifysgol. Mae hyn er mwyn rheoli'r berthynas gyflogaeth ac er mwyn monitro perfformiad

Heb yr wybodaeth yma ni fyddem yn gallu eich cyflogi chi a chadw at y gyfraith, asesu eich cais, cynnig gwaith i chi gyda'r Brifysgol na gwneud addasiadau rhesymol. Mae peth data personol hefyd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein hymrwymiad cyfreithiol (er enghraifft, mewnfudo neu CThEF).

| **PAM RYDYM YN PROSESU EICH DATA** | | |
|---|---|---|
| **Diben** | **Sail Gyfreithiol** | **Cyfiawnhad** |
| Gwneud penderfyniad ynghylch eich recriwtio neu eich penodi | • Contract | Angenrheidiol cyn mynd i gontract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Penderfynu ar y telerau y byddwch yn gweithio i ni | • Contract | Angenrheidiol cyn mynd i gontract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Dyrannu a rheoli cyfrifoldebau gwaith | • Contract | Angenrheidiol cyn mynd i gontract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Talu cyflog, cyfraniadau treth a phensiwn a'r broses sy'n gysylltiedig gyda budd-daliadau | • Contract | Angenrheidiol cyn mynd i gontract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Rheoli perfformiad ac ymddygiad | • Contract | Angenrheidiol cyn mynd i mewn i gytundeb gwaith ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Rheoli anghenion a chyfleoedd o ran hyfforddiant a datblygiad | • Contract | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r cytundeb gwaith. |

| | | |
|---|---|---|
| Cefnogi gweinyddu a chymhwyso achrediadau a nodau siarter proffesiynol | • Caniatâd<br>• Buddiant Dilys | Mae achrediad proffesiynol yn arddangos ymrwymiad y sefydliad i fodloni safonau proffesiynol uchel<br>Yn gyffredinol bydd data'n cael ei rannu mewn fformat cydgasgledig wedi'i anonymeiddio, ond lle bydd data y mae modd adnabod rhywun yn bersonol ohono yn cael ei rannu (lluniau/brasluniau a gwybodaeth sylfaenol) bydd y rhain yn cael eu rhannu gyda'ch caniatâd. |
| Monitro cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer ein rhwymedigaeth gyfreithiol i hyrwyddo amgylchedd gwaith cynhwysol a chydymffurfio gyda Chyfraith Cyflogaeth a rhwymedigaethau cyfreithiol eraill gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Darparu gwasanaethau TG, mynediad at adeiladau a gwasanaethau llyfrgell | • Contract<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r cytundeb gwaith.<br><br>Ar gyfer defnyddwyr llyfrgell nad ydynt yn hanfodol, y sail ar gyfreithiol ar gyfer y prosesu hwn yw Buddiant Dilys. |
| Gweithredu a sicrhau cydymffurfiaeth gyda pholisïau'r Brifysgol | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth, ac i gydymffurfio gyda pholisi'r Brifysgol, cyfraith cyflogaeth a Chod Ymarfer ICO. |
| Ymgymryd â chadw gwyliadwraeth gyda chamera cylch cyfyng, gan gynnwys camerâu sy'n cael eu gwisgo ar y corff ar gyfer atal, lleihau, darganfod ac archwilio i droseddau ac achosion eraill er mwyn sicrhau diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr; cynorthwyo gydag archwilio achosion lle amheuir bod rheoliadau'r Brifysgol wedi'u torri gan staff neu fyfyrwyr; a monitro a gorfodi materion yn gysylltiedig â thraffig. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Buddiant Dilys | Mae gan y Brifysgol fuddiant dilys yn sicrhau bod ei champysau'n llefydd diogel i weithio, byw ac astudio ynddynt. Mae ganddi ddyletswydd gofal statudol tuag at ei staff a'i myfyrwyr er mwyn sicrhau amgylchedd diogel.<br><br>Lle mae unigolion yn defnyddio cyfleusterau parcio ceir, maent wedi mynd i mewn i gontract gyda thelerau ac amodau sy'n gofyn am gadw gwyliadwraeth at bwrpasau monitro. |
| Asesu, monitro a rheoli addasrwydd a'r gallu i weithio a rheoli absenoldeb salwch | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer perfformio contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Rheoli digwyddiadau iechyd a diogelwch gan gynnwys adrodd statudol ac atgyfeiriadau meddygol | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Cydymffurfio gyda Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. |

| | | |
|---|---|---|
| Monitro i ba raddau mae staff Ystadau yn cael eu hamlygu i gryndod o offer mecanyddol a ddarperir gan y Brifysgol. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer perfformio'r contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth |
| Rheoli prosesau ail-raddio a hyrwyddo. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer perfformio contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Darparu gwybodaeth reoli a phrofi ffwythiant datblygiadau systemau AD | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu contract cyflogaeth, er mwyn cydymffurfio gyda Chyfraith Cyflogaeth a'n diddordebau dilys er mwyn sicrhau bod systemau AD yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithlon a hefyd, er mwyn bod yn sail i benderfyniadau rheoli. |
| Cyfathrebu gyda chi fel ymgeisydd (gan gynnwys anfon arolygon atoch ynghylch eich profiadau) ac yn ystod eich cyflogaeth. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth a'n rhwymedigaethau eraill a'n buddiant dilys wrth ymgynghori gyda staff a chodi ymwybyddiaeth o fentrau a chyfleoedd. |
| Y nod yw eich darparu gyda buddion sy'n gysylltiedig â chyflogaeth | • Contract | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r cytundeb gwaith. |
| Cysylltu gyda'ch darparwr pensiwn | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Noddi staff rhyngwladol i weithio yn y DU | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda Chyfraith Cyflogaeth a rhwymedigaethau cyfreithiol eraill. |
| Gwirio statws hawl i weithio a chefnogi ceisiadau fisa | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda Chyfraith Cyflogaeth a rhwymedigaethau cyfreithiol eraill. |
| Cyflwyno ceisiadau cyllid grant a/neu fynd i mewn i gytundebau cyllid grant gydag ariannwyr, gan<br>gynnwys, ond heb fod yn | • Contract<br>• Tasg Gyhoeddus | Angenrheidiol er mwyn galluogi'r Brifysgol i gael mynediad at adnoddau cyllid er mwyn ei galluogi i<br>ymgymryd ag ymchwil. |

| | | |
|---|---|---|
| heb fod yn gyfyngedig i UKVI, a/neu rannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill sy'n arwain ar gais ariannu. Mae monitro gwybodaeth yn cael ei rannu gydag UKRI mewn ffurf cyfanredol. | | |
| Casglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau disgyblu neu gwynion posib, cyfarfodydd a gwrandawiadau. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Gwneud penderfyniadau ynghylch eich cyflogaeth barhaus neu drefniadau ar gyfer dod â'n perthynas waith i ben | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Darparu geirdaon ar gais | • Caniatâd<br>• Contract | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract gwaith ar gyfer ymgeiswyr neu lle mae caniatâd wedi'i roi. |
| Asesu addasrwydd a chymhwysedd i ymgymryd â gwaith yn y Brifysgol (gan gynnwys gwiriadau cyn-cyflogaeth, er enghraifft, gofyn am eirdaon, cwestiynau cyn-sgrinio, gofyn ynghylch euogfarnau sydd heb eu disbyddu) | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol er mwyn i ni ymgysylltu gyda chi ynghylch y broses o sefydlu contract (anghenraid cytundebol). Cyflawni dyletswydd gyfreithiol cyflogwr i sicrhau diogelwch a lles ei staff a'i myfyrwyr (cydymffurfiaeth gyda rhwymedigaeth gyfreithiol) a'n buddiant dilys. |
| Darparu gwasanaethau sy'n cael eu gweinyddu gan gyflenwyr allweddol gan gynnwys teithio, yswiriant, llety a llogi cerbydau. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol | Angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth ac er mwyn cydymffurfio gyda chyfraith cyflogaeth. |
| Ymgymryd ag ymchwil a dadansoddi mewnol at ddibenion (ymchwil) anacademaidd gan gynnwys monitro perfformiad ac ansawdd ar lefel sefydliadol lle nad oes unrhyw draweffaith uniongyrchol ar destunau data. | • Buddiant Dilys | Buddiant dilys wrth sicrhau bod y Brifysgol yn gallu cael budd o'i staff a'i myfyrwyr drwy ddeall sut y maent yn cael eu heffeithio gan ei harferion a gweithredu gwelliant parhaus i'w pholisïau, prosesau a thechnolegau. |
| Manylion cyswllt sylfaenol wedi'u cyhoeddi'n fewnol ac yn allanol ar wefan tudalennau staff a/neu dîm. | • Contract<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol at ddibenion contractau a chytundebau cydweithredu, er budd dilys y Brifysgol i gyflawni'r rhwymedigaethau hynny o fewn cytundebau. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| At ddibenion cynnal cystadlaethau a chynlluniau cydnabod, gwneud dyfarniadau a rhoi gwobrau. | • Buddiant Dilys | Mae yna fudd eglur a sefydledig i'r Brifysgol fod yn gallu cynnal cystadlaethau a gwobrwyo rhagoriaeth. |
| Ar gyfer staff sy'n byw mewn llety sy'n cael ei reoli gan y Brifysgol, materion gweinyddu sy'n berthnasol i'r llety hwnnw gan gynnwys ffïoedd, iechyd a diogelwch, arlwyo, glanhau a chynnal a chadw a gweithdrefnau disgyblu. | • Contract | Rheidrwydd cytundebol. Gall y gwasanaeth llety ddefnyddio cyfeiriadau e-bost personol at ddibenion cyfathrebu gyda staff sy'n byw mewn llety a reolir gan y Brifysgol. |
| Deall y rhesymau pam mae staff yn gadael y sefydliad ac i adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a godir drwy arolygon ymadael a/neu gyfweliadau ymadael | • Buddiant Dilys | Mae'n fuddiant dilys i'r Brifysgol allu adnabod y tueddiadau cyffredinol ar gyfer staff yn gadael y Brifysgol er mwyn gwella cyfraddau cadw yn ogystal â'r gallu i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a godwyd ar lefel sefydliadol a/neu adrannol er mwyn darparu gwelliant parhaus i'r profiad staff cyffredinol pan oeddant yn y Brifysgol. |
| Cynnal iechyd ein holl boblogaeth myfyrwyr ar y campws, drwy fonitro symudiadau myfyrwyr o amgylch campysau'r Brifysgol er mwyn galluogi prosesau Profi ac Olrhain effeithiol yn ystod digwyddiadau iechyd byd-eang.<br><br>Adnabod y rhai yr effeithir arnynt oherwydd Sgrinio Iechyd a Hunan-adrodd. | Mae'r Brifysgol o dan rwymedigaeth gyfreithiol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr a rhai yr effeithir arnynt drwy ymgymeryd ag ef.<br><br>Y mae o fewn buddiant dilys y Brifysgol (gan sicrhau lles a lleihau risg i'r cyhoedd yn ogystal â sicrhau darpariaeth a pharhad gweithrediadau).<br><br>Y mae o fudd i'r cyhoedd. | Cydymffurfio gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol ac unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol a gyflwynwyd pe digwydd argyfwng iechyd byd-eang.<br><br>Buddiant dilys er mwyn sicrhau bod y Briyfsgol yn amgylchedd diogel ac iach i'r holl fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| Cadw cofnodion o ohebiaeth rhwng y Brifysgol ac aelod o staff | • Contract | Rheidrwydd cytundebol |
| Wedi'i rannu gyda chontractwyr trydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Brifysgol megis darparwyr hyfforddiant, prentisiaethau, datrysiadau meddalwedd. | • Contract<br>• Buddiant Dilys | Angenrheidiol at ddibenion y cytundeb gyda'r trydydd parti a buddiant dilys y Brifysgol er mwyn darparu gwasanaethau i staff a chydymffurfio gydag argymhellion ICO lle mae prosesu data'n digwydd. |

Gall fod prosesu arall yn ychwanegol at yr uchod. Bydd hyn yn cael ei wneud ar sail ein polisïau, a byddwn yn eich ar y pryd pan fydd y data'n cael ei sicrhau neu cyn gynted ag y gallwn wedi hynny.

Lle mae sail prosesu eich data personol yn rheidrwyd cytundebol ac nad ydych yn ein darparu ni gyda'r data personol sydd ei angen, mae'n bosib na fydd y Brifysgol yn gallu cyflawni ei chytundeb gwaith gyda chi (megis eich talu chi) neu mae'n bosib y cawn ein hatal rhag cydymffurfio gyda'n hymrwymiadau cyfreithiol (er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch ein gweithwyr).

| SUT YDYM NI'N PROSESU GWYBODAETH SY'N ARBENNIG O SENSITIF | |
|---|---|
| **Diben** | **Sail Gyfreithiol a Chyfiawnhad** |
| Rydym yn defnyddio gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch iechyd er mwyn gwneud yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen er mwyn eich cefnogi chi yn y gwaith ac ar gyfer monitro cyfleoedd cyfartal | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br><br>**Cyflwr penodol:** Galluogi'r Brifysgol i ymgymryd â'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac er mwyn monitro cyfleoedd cyfartal |
| Rydym yn defnyddio gwybodaeth ynghylch eich hil neu ethnigrwydd, credoau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil a barn wleidyddol er mwyn cynnal gwaith monitro cyfleoedd cyfartal. | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br><br>**Cyflwr penodol:** Galluogi'r Brifysgol i ymgymryd â'i rhwymedigaethau o dan gyfraith cyflogaeth a Deddf Cydraddoldeb 2010 ac er mwyn monitro cyfleoedd cyfartal. |
| Rydym yn defnyddio gwybodaeth ynghylch aelodaeth o undeb llafur er mwyn talu premiymau undeb llafur, cofrestru statws gweithiwr gwarchodedig a chydymffurfio gyda rhwymedigaethau cyfraith cyflogaeth. | • Caniatâd<br><br>**Amod penodol:** Rydych chi'n rhoi eich caniatâd penodol. |

| | |
|---|---|
| Rydym yn defnyddio gwybodaeth ynghylch eich euogfarnau troseddol, cerydd a rhybuddion er mwyn asesu eich addasrwydd i ymgymryd â'r gwaith yr ydych yn cael eich cyflogi ar ei gyfer. | • Contract<br>• Buddiant Dilys<br><br>**Amod penodol:** Galluogi'r Brifysgol i gyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol gan gynnwys bodloni ein rhwymedigaethau ym maes cyfraith cyflogaeth a chyflawni ein dyletswydd gofal tuag at staff a myfyrwyr, diogelu plant ac unigolion sy'n agored i niwed ac atal gweithredoedd anghyfreithlon rhag digwydd. |
| Rydym yn defnyddio gwybodaeth sy'n berthnasol i fanylion cyswllt brys a pherthynas agosaf staff at ddibenion hysbysu cysylltiadau staff pe digwydd i'r aelod hwnnw o staff gael ei daro'n wael neu ei fod yn cael damwain yn y gwaith. | • Caniatâd<br>• Diddordeb Hanfodol<br><br>**Amod penodol:** Gallwch roi eich caniatâd penodol neu pan nad yw hynny'n bosib, y mae'n fuddiant hanfodol i chi.<br><br>*Mae'r Brifysgol yn cymryd yn ganiataol eich bod wedi gwirio gydag unigolion eich bod yn gallu rhannu eu manylion cyswllt.* |
| Mae gwybodaeth am berthnasoedd yn unol â Pholisi Perthnasoedd Personol Agos y Brifysgol at bwrpas cadw cofnodion a mynd i'r afael ag unrhyw wrthdaro buddiant. | • Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br><br>**Amod penodol:** Galluogi'r Brifysgol i ymgymryd â'i rhwymedigaethau cyfreithiol. |
| Gwybodaeth am eich partner/gŵr neu wraig briod/dibynyddion (staff rhyngwladol) er mwyn cefnogi gweinyddu eich benthyciad fisa/cais am ad-daliad. | • Contract<br><br>**Amod penodol:** Rydych chi'n rhoi eich caniatâd penodol. |
| Cadw cofnodion o wybodaeth a gohebiaeth ynghylch ceisiadau gwaith hyblyg | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br><br>**Amod penodol:** Eich galluogi chi i wneud cais statudol |
| Cadw cofnodion am wybodaeth a gohebiaeth ynghylch cyfnod mamolaeth, cyfnod mabwysiadu/benthyg croth, cyfnod tadolaeth, absenoldeb rhieni, absenoldeb rhieni a rennir, amser i ffwrdd ar gyfer dibynyddion ac er mwyn darparu staff gyda gwyliau statudol a/neu dâl sy'n ddyledus i chi o dan y polisi perthnasol. | • Contract<br><br>**Amod penodol:** Eich galluogi chi i ddefnyddio hawl statudol |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ynghylch beichiogrwydd, gan gynnwys asesiadau risg at ddibenion cymryd y camau gweithredu angenrheidiol gan y Brifysgol er mwyn sicrhau eich iechyd a diogelwch chi a'ch plentyn sydd heb ei eni. | • Contract<br>• Rhwymedigaeth Gyfreithiol<br><br>**Amod penodol:** At bwrpas asesu capasiti gwaith aelod o staff sy'n feichiog/yn dychwelyd i'r gwaith ac er mwyn atal anaf neu salwch. |
| Gwybodaeth am Absenoldeb Salwch a Thâl, gan gynnwys Prifysgol Wrecsam a Thâl Salwch Statudol at ddibenion cadw cofnodion manwl gywir ac i'ch darparu chi gyda Thâl Salwch y Brifysgol a'r Tâl Salwch Statudol y mae gennych hawl iddynt. | • Contract<br><br>**Amod Penodol:** Galluogi'r Brifysgol i ymgymryd â'i rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â Thâl Salwch Statudol. |
| Gwybodaeth mewn perthynas â honiadau cyfreithiol a/neu yswiriant. | • Contract<br>• Buddiant Dilys<br><br>**Amod Penodol:** At ddibenion galluogi'r Brifysgol i ddwyn hawliadau cyfreithiol a/neu ddibenion yswiriant, neu i'w hamddiffyn. |
| Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chyflyrau iechyd neu feddygol at ddibenion cael cyngor Iechyd Galwedigaethol neu at ddibenion y Brifysgol yn cydymffurfio gyda'i rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. | • Caniatâd<br><br>**Amod Penodol:** Rydych chi'n rhoi eich caniatâd penodol. |

## Pa wybodaeth ydym ni'n ei chael gan drydydd partïon?

Weithiau rydym yn derbyn eich data personol gan drydydd partïon. Mae'r tabl canlynol yn rhestru pa wybodaeth y gallem ei derbyn ganddynt.

| **O BLE RYDYM NI'N CAEL DATA** | |
|---|---|
| **Ffynhonnell** | **Data y gallem fod yn ei dderbyn ganddynt** |
| **Rheolwr Swyddi Gwag (Stonefish)** | Eich cais a'r cofnod recriwtio. |
| **Y Swyddfa Gartref (UKVI)** | Eich statws ymfudo. |
| **Gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol, Meddygon Teulu a/neu Ymarferwyr Meddygol/Gofal Iechyd** | Gwybodaeth feddygol a hygyrchedd cysylltiedig a gwybodaeth debyg, (rydym ond yn cael y wybodaeth yma gan drydydd partïon os ydych chi'n rhoi caniatâd i ni wneud hynny). |

| | |
|---|---|
| | |
| **Corff proffesiynol perthnasol (er enghraifft GMC neu NMC)** | Eich statws cofrestru proffesiynol. |
| **Darparwr DBS y Brifysgol (Atlantic Data)** | Eich cofnod troseddol a statws rhestr wahardd. |
| **Darparwr Hyfforddiant Allanol** | Gwybodaeth hyfforddiant a datblygiad. |
| **Darparwyr Asesu Allanol** | Profi seicometrig a deilliannau asesu. |
| **Asiantaethau Cyflogaeth Eraill** | Manylion personol a manylion cyswllt, eich cais a CV. |
| **Cyn-gyflogwyr** | Eich cofnod cyflogaeth flaenorol. |

## Â phwy y byddwn yn ei rannu?

Weithiau gallem fod angen rhannu eich data, gan gynnwys data personol sensitif. Mae'r tabl canlynol yn rhoi enghreifftiau o'r math hwn o rannu data.

| GYDA PHWY YDYM NI'N RHANNU DATA? | |
|---|---|
| **Derbynnydd** | **Data y gallem fod yn ei rannu gyda hwy** |
| **Rheolwyr Llinell** | Manylion cyswllt, manylion cyflogaeth, presenoldeb, llwyth gwaith wedi'i gynllunio, perfformiad, ymddygiad, hyfforddiant a datblygiad ar gyfer gweithredu'r contract cyflogaeth a'r wybodaeth iechyd er mwyn cyflawni ein dyletswydd gofal a lle mae'n angenrheidiol ar gyfer rhoi addasiadau rhesymol a/neu ddarparu gwybodaeth iechyd ychwanegol ar waith. |
| **Ein Staff Gweinyddol a Chefnogi** | Manylion cyswllt, manylion cyflogaeth, llwyth gwaith a gynlluniwyd, manylion ymfudo, presenoldeb, hyfforddiant a gwybodaeth am ddatblygiad a chynnydd. Gwybodaeth iechyd dim ond lle mae'n angenrheidiol ar gyfer rhoi addasiad rhesymol a/neu ddarparu cefnogaeth arall ar waith. |
| **Undebau Llafur** | Mae gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chysylltiadau cyflogaeth yn cyfrif. |
| | |

| | |
|---|---|
| **Swyddogion ymchwilio, cadeiryddion ac aelodau o baneli gwrandawiadau, tîm gwasanaethau cyfreithiol y Brifysgol a/neu gyfreithwyr allanol, tribiwnlysoedd cyflogaeth ac ACAS** | Gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig gydag ymddygiad, perfformiad a chyflogaeth. |
| **Arianwyr Ymchwil** | Manylion staff, gan gynnwys arbenigedd a gwybodaeth am gyflog at bwrpas archwilio galluoedd staff er mwyn diogelu ariannu. |
| **Sefydliadau trydydd parti sy'n prosesu data personol ar ein rhan, megis darparwyr hyfforddiant, darparwyr asesu ac arolygwyr cyflogaeth.** | Enw, manylion cyswllt, manylion cyflogaeth. |
| **Sefydliadau trydydd parti y gwneir trosglwyddiad TUPE posib iddynt** | Telerau ac Amodau cytundeb gwaith a buddion cysylltiedig (gwybodaeth lawn am rwymedigaeth gweithiwr). |
| **Cyrff swyddogol y mae'n rhaid i'r Brifysgol adrodd iddynt, er enghraifft HESA a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'u hasiantaethau.** | Mae'r wybodaeth a ddarperir yn angenrheidiol er mwyn cyflawni rhwymedigaethau adrodd y Brifysgol i'r cyrff yma. Gallai hyn gynnwys data categori arbennig. |
| **Cyflogwyr y dyfodol** | Gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig gydag ymddygiad, perfformiad a chyflawniad academaidd, lle gofynnir i ni am eirda. |
| **Tiwtoriaid a/neu ddarparwyr cwrs datblygiad proffesiynol** | Rhestrau mynychwyr cwrs a manylion cyswllt. |
| **Asiantaethau'r Llywodraeth megis Swyddfa Fisa ac Ymfudo y DU a'r Swyddfa Gartref** | Manylion cyswllt, manylion pasbort, cyflog a manylion sail cyflogaeth arall, er enghraifft statws contract tymor penodol neu barhaol. |
| **Darparwr DBS y Brifysgol (Atlantic Data)** | Enw a manylion cyswllt. |
| **Cynlluniau pensiwn y Brifysgol (megis LGPSau a TPS)** | Gwybodaeth bersonol gan gynnwys manylion cyswllt a chyflog a manylion cyfraniadau pensiwn. |
| **CYLLID A THOLLAU EI FAWRHYDI (CTHEF)** | Manylion cyswllt, tâl a budd-daliadau. |
| **Cyrff rheolaethol proffesiynol lle rydych wedi'ch cofrestru'n broffesiynol** | Manylion cyswllt, presenoldeb a chynnydd ac ymddygiad. |
| **Adran Gwasanaethau Gwybodaeth** | Yr holl ddata personol sy'n cael ei ddal yn electronig (ar gyfer arbed dogfennau ac ar gyfer datblygu systemau newydd). |

| | |
|---|---|
| **Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol** | Unrhyw ddata personol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithrediad parhaus rheolwyr mewnol a/neu ar gyfer atal, canfod ac archwilio amheuaeth o dwyll neu weithredoedd afreolaidd. |
| **Yr heddlu neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill (bydd hyn ond yn cael ei rannu ar gais a le mae sail gyfreithiol dros wneud hynny)** | Bydd gwybodaeth wedi'i ddarparu yn ôl yr angen er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol y Brifysgol o safbwynt atal ac adnabod trosedd. |
| **Gwesteiwyr meddalwedd a darparwyr cwmwl** | Bydd gwybodaeth yn cael ei rannu gyda darparwyr a chyflenwyr TG er mwyn darparu ein gwasanaethau. Gall y data hwn fod yn ddarostyngedig i'w drosglwyddo oddi allan i'r DU, fodd bynnag, rydym yn sicrhau bod cytundebau yn eu lle ac yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy er mwyn sicrhau diogelwch gwybodaeth bersonol. |
| **Profi ac Olrhain GIG** | Mae'n bosib y byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt a gwybodaeth ynghylch eich symudiadau o amgylch Campysau'r Brifysgol er mwyn iddynt adnabod unigolion y gallech fod wedi bod mewn cysylltiad â hwy neu a allai fod wedi dod i gysylltiad gyda chi. Gwneir hyn er mwyn iddynt gysylltu gydag unigolion lle mae angen hunan-ynysu. |
| **Cyfreithwyr ac yswirwyr allanol y Brifysgol** | Gwybodaeth sy'n berthnasol i ddwyn honiadau cyfreithiol a/neu ddamweiniau neu ddigwyddiadau sy'n digwydd yn y Brifysgol, neu i'w hamddiffyn. |

## Pryd ydym ni'n trosglwyddo data dramor (oddi allan i'r Deyrnas Unedig)?

Fel y dangosir yn y tabl uchod, byddwn yn rhannu eich data gyda'n darparwr lleoliad, a allai fod oddi allan i'r DU, ar sail bod trosglwyddiad o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer gweithredu ein contract gyda chi.

Mae Prifysgol Wrecsam hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr a phartneriaid a allai ddefnyddio'r technolegau'r cwmwl a/neu dechnolegau sy'n cael eu cynnal. Rydym yn ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ar ein partneriaid, sicrhau bod contractau addas yn eu lle a bod y partneriaid yma'n cydymffurfio gydag achrediadau priodol.

Lle bynnag y bydd y trosglwyddiadau yma'n digwydd, bydd gan y Brifysgol gontract priodol yn ei le ac mae yna reolau caeth ynghylch cyfrinachedd a diogelwch eich gwybodaeth sydd yn eu lle er mwyn ei diogelu.

## Am ba mor hir ydym ni'n cadw'ch data?

Fel arfer bydd data personol sy'n gysylltiedig â cheisiadau yn cael ei gadw am oddeutu blwyddyn.

Caiff gwybodaeth gytundebol (er enghraifft manylion am eich presenoldeb, perfformiad a manylion cyswllt) ei chadw am chwe blynedd wedi i chi gwblhau eich rhaglen neu ddirwyn eich rhaglen i ben fel arall. Mae cyfnodau cadw fel arfer yn gysylltiedig gyda chyfnodau cyfyngiad cyfreithiol (statud y cyfyngiadau). Mae amserlen cadw cofnodion y Brifysgol ar gael ar-lein.

Bydd data personol sy'n cael ei ddal mewn perthynas â'n swyddfa cyn-fyfyrwyr yn cael ei gadw er mwyn cefnogi eich perthynas gydol oes gyda'r Brifysgol, neu hyd nes nad oes unrhyw sail gyfreithiol dros ei ddal bellach (er enghraifft os ydych chi'n tynnu eich caniatâd yn ei ôl).

## Eich hawliau diogelu data

O dan gyfraith gwarchod data, mae gennych hawliau gan gynnwys:

**Eich hawl i fynediad** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol.

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

**Eich hawl i gywiro** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol os ydych chi'n meddwl ei bod yn anghywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn inni gwblhau gwybodaeth os ydych chi'n meddwl ei bod yn anghyflawn.

**Eich hawl i ddileu** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol os ydych chi'n meddwl ei bod yn anghywir.

**Eich hawl i gyfyngu ar brosesu** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol os ydych chi'n meddwl ei bod yn anghywir.

**Eich hawl i gyfyngu ar brosesu** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol os ydych chi'n meddwl ei bod yn anghywir.

**Eich hawl i hygludedd data** - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi i ni i sefydliad arall, neu i chi, o dan rai amgylchwiadau penodol.
Nid oes gofyn i chi dalu unrhyw gost am arfer eich hawliau. Os ydych chi'n gwneud cais, mae gennym ni fis i ymateb i chi.

**Cysylltwch â ni drwy'r Swyddog Gwarchod Data, Prifysgol Wrecsam, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW neu dpo@wrexham.ac.uk os ydych chi'n dymuno gwneud cais.**

## Sut i wneud cwyn

Os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch y ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, gallwch wneud cwyn drwy'r Swyddog Gwarchod Data, Prifysgol Wrecsam, Plas Coch, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW neu dpo@glyndwr.ac.uk.

Gallwch hefyd gwyno i'r ICO os ydych yn anhapus gyda sut rydym wedi defnyddio eich data.

Cyfeiriad yr ICO:
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif llinell ffôn gymorth: 0303 123
1113 Gwefan ICO:
https://www.ico.org.uk

## Sut allaf i gael mwy o wybodaeth?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda dpo@glyndwr.ac.uk .

Byddwn yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd a byddwn yn rhannu unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon.

Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar 17/03/2026.